Adroddiad i'r	**Pwyllgor Craffu Cymunedau**
Dyddiad y Cyfarfod	**21 Hydref 2021**
Aelod Arweiniol / Swyddog:	**Y Cyng. Brian Jones: Aelod Arweiniol Gwastraff, Cludiant a'r Amgylchedd / Tony Ward: Pennaeth Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol**
Awdur yr Adroddiad:	**Wayne Hope**
Teitl	**Digwyddiad Llifogydd 20 Ionawr 2021– Adroddiad Ymchwilio Llifogydd Adran 19**

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Ar 20 Chwefror 2021, cafwyd llifogydd helaeth ar draws Sir Ddinbych o ganlyniad i Storm Christoph. Ers hynny, mae swyddogion y cyngor, yn ogystal â swyddogion o Gyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru, wedi cynnal ymchwiliadau i'r llifogydd er mwyn deall y rhesymau dros pam ddigwyddodd y llifogydd, y tebygolrwydd ohono'n digwydd eto ac i asesu p'un a ellir rhoi'r mesurau ar waith i leihau llifogydd yn y dyfodol.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Mae adran 19 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ymchwilio i unrhyw ddigwyddiadau mewn perthynas â llifogydd yn y sir a chyhoeddi adroddiad o ganfyddiadau'r ymchwiliad yn unol â hynny. Pwrpas yr adroddiad hwn yw archwilio'r canfyddiadau, y camau gweithredu a'r argymhellion sy'n deillio o'r ymchwiliad i'r digwyddiadau llifogydd a ddigwyddodd yn y sir ym mis Ionawr 2021.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Cyngor yn ceisio sicrwydd gan Gyfoeth Naturiol Cymru y bydd yr argymhellion a nodwyd yn adroddiadau archwiliadau llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru'n cael ei cyflawni.

4. Manylion yr Adroddiad

4.1. Rhwng 18 a 20 Ionawr 2021, daeth Storm Christoph â gwyntoedd cryfion, glaw trwm ac eira, gyda'r glawiad dwysaf yn digwydd dros Ogledd Cymru a gogledd Lloegr, gan ddod â llifogydd lleol i lawer o ardaloedd. Adroddodd y Swyddfa Dywydd fod 50 i 100mm o law wedi cwympo'n eang ledled Cymru a gogledd-orllewin Lloegr, gyda dros 100mm ar draws ardaloedd ucheldirol Cymru. Profodd Sir Ddinbych effeithiau'r Storm hon, gyda glaw trwm ac estynedig yn peri llifogydd i oddeutu 67 o gartrefi a 6 busnes ar 20 Ionawr. Roedd mwyafrif y llifogydd yn dod o ffynonellau prif afonydd. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru, fel yr awdurdod rheoli risg llifogydd perthnasol ar gyfer prif afonydd, wedi cynnal ei ymchwiliadau llifogydd ei hun. Mae adroddiadau ymchwilio i lifogydd 'Cyfoeth Naturiol Cymru' wedi'u cynnwys fel atodiadau i'r adroddiad ymchwiliad trosfwaol hwn.

4.2. Mae gan Gyngor Sir Ddinbych, fel Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol, ddyletswydd o dan Adran 19 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr i archwilio llifogydd yn ei ardal. Mae'r Ddeddf yn nodi:

(1) Wrth ddod yn ymwybodol o lifogydd yn ei ardal, mae'n rhaid i awdurdod llifogydd lleol arweiniol, i'r graddau a bennir yn briodol ganddo, ymchwilio -
(a) pa awdurdodau rheoli risg sydd â swyddogaethau rheoli risg llifogydd perthnasol, a
(b) a yw pob un o'r awdurdodau rheoli risg hynny wedi arfer, neu'n cynnig arfer, y swyddogaethau hynny mewn ymateb i'r llifogydd

(2) Lle bo awdurdod yn cynnal archwiliad dan isadran (1) mae'n rhaid iddo -
(a) gyhoeddi canlyniadau'r archwiliad, a
(b) hysbysu unrhyw awdurdodau rheoli risg perthnasol.

4.3. Diben adroddiad yr archwiliad yw mynd i'r afael â'r cwestiynau allweddol canlynol:

- Pam ddigwyddodd y llifogydd?
- Pa mor debygol y bydd llifogydd o'r raddfa honno yn digwydd eto?
- Pa welliannau sydd eu hangen i sicrhau bod risg llifogydd y Sir yn cael ei reoli'n briodol yn y dyfodol?

4.4. Y ffynonellau llifogydd mwyaf arwyddocaol yn ystod digwyddiad Ionawr 2021, o ran nifer yr eiddo yr effeithiwyd arnynt, oedd Afon Clwyd yn Rhuthun ac Afon Ystrad ym Mrwcws, Dinbych. Mae'r rhain yn cael eu dosbarthu fel prif afonydd a chyfrifoldeb Cyfoeth Naturiol Cymru, fel yr awdurdod rheoli risg gyda swyddogaethau rheoli risg llifogydd mewn perthynas â phrif afonydd, yw archwiliad manwl lleoliad pob llifogydd. Roedd llifogydd prif afon hefyd yn Llandyrnog (Afon Clwyd), Loggerheads (Afon Alyn) a Chorwen (Afon Dyfrdwy).

4.5. Er mai prif afonydd oedd prif ffynonellau llifogydd, teimlwyd effeithiau Storm Christoph ar draws llawer o Sir Ddinbych.

4.6. Mae adroddiad archwilio llifogydd trosfwaol y Cyngor yn Atodiad 1 yr adroddiad hwn. Mae'r ymchwiliadau i lifogydd ym mhob un o brif leoliadau afonydd wedi'u cynnwys fel atodiadau i'r adroddiad trosfwaol.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Un o flaenoriaethau corfforaethol y Cyngor ar gyfer 2017 i 2022 yw darparu amgylchedd deniadol sydd wedi'i amddiffyn, gan gefnogi lles a ffyniant economaidd. Un o'r mesurau a nodir yn y Cynllun Corfforaethol i alluogi hyn yw lleihau nifer y tai sydd mewn perygl o lifogydd yn Sir Ddinbych. Mae'r adroddiad ymchwilio llifogydd wedi amlygu cyfleoedd i helpu i gyflawni'r mesur hwn, gyda rhai ohonynt yn cynnwys gweithio'n agos gyda Chyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Mae costau cynnal gwaith archwilio llifogydd y Cyngor yn cael eu diwallu drwy'r cyllidebau refeniw presennol.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1. Nid yw'r adroddiad hwn yn cyfeirio at brosiect penodol, felly ni chynhaliwyd Asesiad o Effaith ar Les. Ond, pe bai'r Cyngor yn cyflwyno unrhyw gynigion yn y dyfodol i gynnal cynllun neu brosiect o ganlyniad i'r adroddiad archwilio llifogydd, bydd Asesiad o Effaith ar Les yn cael ei gyflawni.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Mae'r ymchwiliad i'r llifogydd wedi cynnwys trafodaethau, cyfarfodydd a chyfnewid gohebiaethau gyda Chynghorwyr Sir ac aelodau o'r cymunedau a oedd wedi dioddef llifogydd. Cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd gyda swyddogion Cyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Fel y nodwyd yn Adran 6 mae costau cynnal gwaith archwilio llifogydd y Cyngor yn cael eu diwallu drwy'r cyllidebau refeniw presennol. Bydd unrhyw waith ychwanegol yn destun gweithdrefnau cymeradwyo arferol y cyngor os bydd angen.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Mae gan y Cyngor gyfrifoldeb i ymchwilio i ddigwyddiadau o lifogydd yn y sir a dyletswydd oblygedig dan y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr i wella ei ddealltwriaeth o berygl llifogydd. Os yw'r Cyngor yn methu â gwneud hyn, gall wneud niwed i'w enw da a bydd y cymunedau sydd wedi dioddef llifogydd yn parhau i fod mewn perygl.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1. Mae gan y Cyngor bwerau mewn perthynas â pherygl llifogydd a materion sy'n ymwneud â draenio dan y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr (2010) a'r Ddeddf Draenio Tir (1991).

11.2. Mae pwerau'r Pwyllgor o ran datblygu ac adolygu polisi a chraffu ar berfformiad y Cyngor a chyrff cyhoeddus eraill, wedi'u hamlinellu yn Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 2000 ac Adran 7.4 o Gyfansoddiad y Cyngor.